Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## Clwb Plant Prysur : Working towards CIW registration

**Action**
Clwb Plant Prysur places children's voices, choices and interests at the centre of its provision. The club follows the Playwork Principles by recognising that play is freely chosen, personally directed and intrinsically motivated. Children are encouraged to decide how, where and with whom they play, enabling them to take ownership of their experiences while developing confidence, independence and decision-making skills.

Playworkers provide a rich and varied environment that supports imaginative, creative, physical, social and quiet play. A wide range of loose parts, craft materials, outdoor resources and open-ended activities are available each day, allowing children to explore their interests and create meaningful play experiences. Staff observe and support play sensitively, intervening only when necessary to maintain safety, resolve conflicts, respond to children's requests for support or participate in play when invited by the children.

As a school-based after-school club, children are collected directly from their classrooms, ensuring a smooth transition from the school day into a safe and welcoming play environment. This enables children to remain in familiar surroundings while accessing high-quality play opportunities.

Clwb Plant Prysur is currently working towards registration with Care Inspectorate Wales (CIW). Registration will enable eligible families to access the Tax-Free Childcare scheme and other childcare support programmes, helping to make childcare more affordable and accessible within the local community.

**Evidence**
Observations demonstrate that children confidently access resources independently, initiate their own games and activities, and regularly engage in cooperative play with children from different age groups. Children show increasing confidence in expressing their ideas, negotiating with peers and solving problems independently.

Feedback received from children and families highlights the positive experiences provided by the club:

- "To Clwb, thank you for everything. I will miss you all."
- "Thank you so much for all you have done for us so far this year. We really appreciate it."
- "To everyone at Clwb, thank you so much for all your hard work."
- "Thank you for taking such good care of me."
- "Thank you very much. We really appreciate everything that you and your team do."
- "Thank you for making it fun in Clwb."

Parents and carers have also commented positively on the convenience of the provision, particularly the fact that children can access after-school childcare without needing to leave the school site.

**Impact**
Clwb Plant Prysur has a positive impact on children's wellbeing, development and enjoyment through its commitment to child-led play and the Playwork Principles. Children attending the club demonstrate increased confidence in social situations, greater independence and improved communication skills. They are more willing to try new experiences, take appropriate risks, share ideas and develop positive relationships with others.

The club provides opportunities for children to form friendships across different age groups, helping them develop empathy, cooperation and a strong sense of belonging. The freedom to direct their own play supports creativity, resilience and problem-solving skills, while the inclusive environment ensures that every child feels valued, respected and listened to.

The provision also delivers significant benefits for families. By offering reliable, school-based childcare, Clwb Plant Prysur enables parents and carers to maintain employment, training and other commitments, safe in the knowledge that their children are being cared for in a secure, nurturing and stimulating environment. The club's progression towards CIW registration will further enhance this support by enabling eligible families to access Tax-Free Childcare and other financial assistance schemes, helping to reduce childcare costs.

More broadly, Clwb Plant Prysur contributes positively to the local community by providing accessible childcare that supports family wellbeing and strengthens community connections. Through fostering positive relationships, promoting children's development through play and supporting working families, the club plays an important role in enhancing outcomes for children and families within the community.

**Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.**

**www.clybiauplantcymru.org**

**info@clybiauplantcymru.org**

**029 2074 1000**

**Facebook**

**Twitter**

**Instagram**

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

## Clwb Plant Prysur: Gweithio tuag at gofrestru gydag AGC

**Camau gweithredu**
Mae Clwb Plant Prysur yn rhoi lleisiau, dewisiadau a diddordebau plant wrth wraidd ei ddarpariaeth. Mae'r clwb yn dilyn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae drwy gydnabod bod chwarae'n cael ei ddewis yn rhydd, ei gyfeirio'n bersonol ac yn cael ei ysgogi'n gynhenid. Anogir plant i benderfynu sut, ble a gyda phwy y maent yn chwarae, gan eu galluogi i gymryd perchnogaeth o'u profiadau wrth ddatblygu hyder, annibyniaeth a sgiliau gwneud penderfyniadau.

Mae gweithwyr chwarae yn darparu amgylchedd cyfoethog ac amrywiol sy'n cefnogi chwarae dychmygus, creadigol, corfforol, cymdeithasol a thawel. Mae ystod eang o rannau rhydd, deunyddiau crefft, adnoddau awyr agored a gweithgareddau penagored ar gael bob dydd, gan alluogi plant i archwilio eu diddordebau a chreu profiadau chwarae ystyrlon. Mae staff yn arsylwi ac yn cefnogi chwarae mewn ffordd sensitif, gan ymyrryd dim ond pan fo angen er mwyn cynnal diogelwch, datrys gwrthdaro, ymateb i geisiadau plant am gymorth neu gymryd rhan mewn chwarae pan gânt eu gwahodd gan y plant.

Fel clwb r'ôl ysgol sydd wedi'i leoli mewn ysgol, cesglir y plant yn uniongyrchol o'u hystafelloedd dosbarth, gan sicrhau pontio esmwyth o'r diwrnod ysgol i amgylchedd chwarae diogel a chroesawgar. Mae hyn yn galluogi plant i aros mewn amgylchedd cyfarwydd wrth gyrchu cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel.

Mae Clwb Plant Prysur wrthi'n gweithio tuag at gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Bydd cofrestru yn galluogi teuluoedd cymwys i gyrchu cynllun Gofal Plant Di-dreth a rhaglenni cymorth gofal plant eraill, gan helpu i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy a hygyrch yn y gymuned leol.

**Tystiolaeth**
Mae arsylwadau'n dangos bod plant yn mynd at adnoddau'n hyderus ac yn annibynnol, yn cychwyn eu gemau a'u gweithgareddau eu hunain, ac yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwarae cydweithredol gyda phlant o wahanol grwpiau oedran. Mae plant yn dangos mwy o hyder wrth fynegi eu syniadau, trafod gyda chyfoedion a datrys problemau'n annibynnol.
Mae adborth a gafwyd gan blant a theuluoedd yn tynnu sylw at y profiadau cadarnhaol a ddarperir gan y clwb:

- "Annwyl Clwb, diolch am bopeth. Byddaf yn gweld eich eisiau chi i gyd."
- "Diolch yn fawr iawn am bopeth rydych chi wedi'i wneud i ni hyd yma eleni. Rydym ni wir yn gwerthfawrogi hynny."
- "Annwyl bawb yn y Clwb, diolch yn fawr iawn am eich holl waith caled."
- "Diolch am ofalu amdanaf mor dda."
- "Diolch yn fawr iawn. Rydym ni wir yn gwerthfawrogi popeth rydych chi a'ch tîm yn ei wneud."
- "Diolch am wneud y Clwb yn hwyl."

Mae rhieni a gofalwyr hefyd wedi gwneud sylwadau cadarnhaol am hwylustod y ddarpariaeth, yn enwedig y ffaith bod plant yn gallu cyrchu Gofal Plant All-Ysgol heb orfod gadael safle'r ysgol.

**Effaith**
Mae Clwb Plant Prysur yn cael effaith gadarnhaol ar les, datblygiad a mwynhad plant drwy ei ymrwymiad i chwarae dan arweiniad plant a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae plant sy'n mynychu'r clwb yn dangos mwy o hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol, mwy o annibyniaeth a gwell sgiliau cyfathrebu. Maent yn fwy parod i roi cynnig ar brofiadau newydd, cymryd risgiau priodol, rhannu syniadau a datblygu perthnasoedd cadarnhaol ag eraill.

Mae'r clwb yn darparu cyfleoedd i blant ffurfio cyfeillgarwch ar draws gwahanol grwpiau oedran, gan eu helpu i ddatblygu empathi, cydweithrediad ac ymdeimlad cryf o berthyn. Mae'r rhyddid i gyfeirio eu chwarae eu hunain yn cefnogi creadigrwydd, gwytnwch a sgiliau datrys problemau, tra bod yr amgylchedd cynhwysol yn sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i wrando arno.

Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cyflwyno manteision sylweddol i deuluoedd. Drwy gynnig gofal plant dibynadwy, wedi'i leoli mewn ysgol, mae Clwb Plant Prysur yn galluogi rhieni a gofalwyr i gynnal cyflogaeth, hyfforddiant ac ymrwymiadau eraill, yn hyderus bod eu plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, meithringar ac ysgogol. Bydd cynnydd y clwb tuag at gofrestru gydag AGC yn cryfhau'r cymorth hwn ymhellach drwy alluogi teuluoedd cymwys i gael mynediad at Ofal Plant Di-dreth a chynlluniau cymorth ariannol eraill, gan helpu i leihau costau gofal plant.

Yn ehangach, mae Clwb Plant Prysur yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned leol drwy ddarparu gofal plant hygyrch sy'n cefnogi lles teuluoedd ac yn cryfhau cysylltiadau cymunedol. Drwy feithrin perthnasoedd cadarnhaol, hyrwyddo datblygiad plant drwy chwarae a chefnogi teuluoedd sy'n gweithio, mae'r clwb yn chwarae rhan bwysig wrth wella canlyniadau i blant a theuluoedd yn y gymuned.

**Cysylltwch â Ni i ddarganfod mwy am y gefnogaeth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei gynnig i'ch clwb.**

**www.clybiauplantcymru.org**

**info@clybiauplantcymru.org**

**029 2074 1000**

**Facebook**

**Twitter**

**Instagram**